CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
19 Chwefror 2019, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D ap Rhobert, G D Williams, D Pritchard, W Vaughan, C McGregor, A Williams, D Morgan, C Jones, D Roberts, A C Jones, W Williams, D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Wyn	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Morgan
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15.01.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng C McGregor yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc wedi ymweld ag eglwys Sant Ddyfnan gyda'r ficer. Mae'r plac coffa yn dadfeilio ac mae'n debygol o dorri'n ddarnau os caiff ei symud o'r wal. Mae'r Clerc wedi dweud wrth Mr a Mrs Thomas, Cefniwrch (a wnaeth y cais) na fydd yn bosibl ei symud
4.2	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Mae'r Cyngor Sir wedi dechrau ar y gwaith
4.3	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mewn llaw
4.4	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mewn llaw
4.5	**Lloches bws, Talwrn** - Mae'r Clerc wedi cael pris gan R G Hire am gosod y concrid a symud y cysgodfan £1200 + TAW. Cytunwyd i symud ymlaen
4.6	**Cyflwr y lôn wrth ymyl Bryn Gors** - Mewn llaw
4.7	**Archwilydd allanol** - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Dim
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru - Nodwyd ni fydd Cyfarfod Rhagarweiniol yn digwydd cyn 1 Mehefin 2019
6.2	Horizon - nodwyd nad oedd Horizon yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod mis Chwefror
6.3	R G Hire - gweler 4.5
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Cytunwyd i dalu Zurich Municipal £257.60 (yswiriant blynyddol)
7.2	Cytunwyd i beidio talu Swyddfa Archwilio Cymru nes bod y Clerc wedi derbyn ymateb
	Llofnod…….Cadeirydd 19.03.19

8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Lon tu allan i Ysgol Talwrn** - darllenwyd ebost gan Cyng W Williams ar rhan Prifathrawes Talwrn am graeanu'r lôn thu allan i'r ysgol, yn ystod tywydd rhewllyd/eira. Mae'r ysgol wedi cael gwybod bydd rhaid talu. Bydd y Clerc yn trafod y mater gyda Cyng Bob Parry/Cyngor Sir
8.2	**Elusen Llanffinan** - Mae'r Clerc wedi derbyn cais gan Parch John Williams yn gofyn am gynrychiolydd o gyngor Llanddyfnan ar y pwyllgor elusendai. Cyn symud ymlaen bydd y Clerc yn gofyn am eu cynigion a faint o arian sydd ganddynt
8.3	**Archwilydd mewnol** - Cytunwyd i dderbyn cynnig Cyngor Sir Gwynedd am o gwmpas £150 i gynnal yr archwiliad mewnol ar gyfer 2018/19
8.4	**Porth Dryw** - Trafodwyd cwyn am cyflwr y ffordd a twll mawr tu allan i Porth y Dryw. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.5	**Lay by** - gyfreithlon? - Dywedodd Cyng G D Williams bod y Cyngor Sir wedi creu y lay by yn Llangwyllog ac felly mae'n gyfreithol. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Cyngor Sir i ddwed nid yw y lay by yn digon llydan i cymeryd car
8.6	**Baw ci Talwrn** - Trafodwyd cwynion unwaith eto am baw ci yn Talwrn. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir
8.7	**Cyflwr y lôn - Pant y Morfil** - mae'r gwaith wedi cael ei wneud
8.8	**Lonydd Tregaian** - cwyn am cyflwr y lon rhwng Dolmeinir a Tregaian. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir
8.9	**Golau rhif 13** Talwrn - wedi'i wneud
8.10	**Siapio Lle** - Bydd y Clerc yn cysylltu â Medwrn Môn am diweddariad
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Cyflwr yr allt ochr Moelfre
9.2	Coed o Bodlondeb i lawr angen torri
	Llofnod…….Cadeirydd 19.03.19